

Teitl y gweithgaredd:	2 weithgaredd: Idiomau a phriod-ddulliau pennod gyntaf Y Gelyn ar y Trên
Disgrifiad:	<ol style="list-style-type: none"> 1. Gweithgaredd ar bapur i gadarnhau dealltwriaeth o rai o'r idiomau a'r priod-ddulliau a ddefnyddir ym mhennod gyntaf Y Gelyn ar y Trên. 2. Gweithgaredd rhyngweithiol – gosod yr idiom gywir yn y frawddeg gywir.
Blynyddoedd ysgol:	Bl 5 a 6
Sgîl Rhaglen Astudio posib:	Ysgrifennu / Ysgrifennu'n gywir / Iaith
Testun T. Llew Jones	Pennod gyntaf Y Gelyn ar y Trên, gan T. Llew Jones, Gwasg Gomer.
Offer angenrheidiol:	Adnodd y Dysgwr – taflen Gêm ryngweithiol
Trefn a awgrymir:	<ul style="list-style-type: none"> • Ar ôl darllen y bennod, trafod beth yw idiom/priod-ddull (<i>ffordd arbennig o siarad</i>). Gofyn am enghreifftiau Cymraeg a Saesneg. • 'Adnodd y Dysgwr'. Bydd rhaid dewis yr esboniad cywir o'r blwch i'w ysgrifennu o dan bob brawddeg. Y dysgwyr yn gweithio'n unigol ar hyn. • Fel dosbarth, gwirio'r ystyron. Ar yr un pryd, ceisio cofio lle roedd y frawddeg yn dod yn y stori (maen nhw yn eu trefn gronolegol) a pham roedd, e.e. llygaid Guto wedi'u hoelio ar yr injan fawr, pam roedd Cwnstabl Llewelyn yn edrych i fyw llygaid Guto. Bydd hyn yn fodd o fynd o dan groen y testun ac ailadrodd yr idiomau/priod-ddulliau yn eu cyd-destun. • Yn ogystal, meddwl am ffyrdd eraill o ddweud rhai pethau, e.e. wedi eu hoelio ar (<i>yn rhythu ar</i>) nerth ei draed (<i>fel cath i gythraul, fel y gwynt</i>); ar unwaith (<i>heb oedi, yn ddi-oed</i>); ar bigau'r drain eisiau dweud rhywbeth (<i>ar dân</i>); i fyw ei lygaid (<i>i gannwyll ei lygaid</i>); yn wyn fel sialc (<i>yn wyn fel y galchen</i>). • Gêm ryngweithiol. Esbonio bod rhai o'r idiomau wedi'u newid, h.y. yn hytrach na 'i fyw ei lygaid', ceir, 'i fyw fy llygaid' er mwyn i'r dysgwyr ddod yn gyfarwydd â'u gweld.
Gweithgareddau gwahaniaethol:	<ul style="list-style-type: none"> • Y dysgwyr yn ysgrifennu eu brawddegau eu hunain, gan gynnwys un idiom/priod-ddull ym mhob brawddeg. Gellid gwneud hyn rai ddiwrnodau'n ddiweddarach fel bod adolygu'n digwydd ac er mwyn i'r idiomau ymsefydlu ym meddwl y dysgwyr dros gyfnod o amser. • Gyda grwpiau blynyddoedd is, edrych ar frawddegau 1, 3, 5, 6, 7 yn unig.